

WJEC AS/A2 Welsh/Cymraeg Level 3



Yn gwyno

Mae Cymraeg ail iaith yn Lefel A plerusrus a all roi hwb i'ch CV.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Ydych eisiau gwella eich rhagolygon cyflogadwyedd yng Nghymru

... Ydych eisiau ychwanegu iaith arall at eich sgiliau

... Ydych yn gweithio'n galed ac yn gallu cymell eich hun

Beth fyddaf yn ei wneud?

Ar ddechrau'r cwrs, byddwn yn ail-ymweld â'r elfennau sylfaenol a dysgu bob amser o'r ferf o'r cychwyn cyntaf er mwyn dileu camgymeriadau a all dynnu marciau yn Lefel U.

Mae amrywiaeth eang yn y cwrs, o astudio ffilmiau Cymraeg, hanes a diwylliant Cymru,

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

barddoniaeth, straeon byrion i gyfryngau cymdeithasol a'r iaith Gymraeg ym mywyd bob dydd.

Lefel UG - mae tri modiwl:

CA1 - arholiad llafar mewn grwp o dri, yn trafod ffilm Gymraeg, 'Patagonia' a ffilmiau a rhaglenni teledu eraill.

CA2 - gwaith cwrs sy'n seiliedig ar Gymry ddoe a heddiw sydd wedi gwneud effaith ar fywyd Cymreig a'r iaith Gymraeg.

CA3 - papur ysgrifenedig sy'n cynnwys cywiro camgymeriadau gramadegol cyffredin, newid paragraff byr o un amser o'r ferf i'r llall neu o'r person cyntaf i'r trydydd person, ysgrifennu llythyr Cymraeg i ymateb i hysbyseb swydd, gwerthfawrogi un o'r pum cerdd a astudir yn ystod y flwyddyn.

Lefel A - bydd cwrs yr ail flwyddyn yn cynnwys tri modiwl arall:

CA4 - arholiad llafar mewn grwp o dri, yn trafod drama Gymraeg fodern a astudir yn y dosbarth yn ystod y flwyddyn.

CA5 - papur ysgrifenedig lle bydd ymgeiswyr yn trafod yr iaith Gymraeg a'i defnydd ym mywyd bob dydd - mewn gwleidyddiaeth, addysg, y gweithle a'r cyfryngau. Bydd hwn yn barhad o'r gwaith a wnaed ar gyfer y gwaith cwrs ar Lefel UG. Darllen erthygl Saesneg a llunio crynodeb ohoni yn Gymraeg.

CA6 - papur ysgrifenedig arall sy'n cynnwys ymarferion gramadegol sy'n seiliedig ar ymateb i e-bost neu gywiro gwaith rhywun arall; dadansoddi cynnwys ac arddull un o'r pedair stori fer a astudiwyd yn y dosbarth; trafod thema yn y stori sydd wedi'i chynnwys mewn gwaith eraill a astudiwyd dros y ddwy flynedd.

Pan fyddwch yn ei gwblhau, byddwch yn ennill cymwysterau mewn:

Cymraeg Lefel A
Cymraeg Lefel AS
Gweithgareddau sgiliau

[Saesneg a Mathemateg](#)

Beth a ddisgwylir ohonof i?



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Er mwyn cael mynediad ar y cwrs, mae angen ichi fod ag o leiaf 5 TGAU Gradd C neu uwch, yn cynnwys Iaith Saesneg, Mathemateg/Rhifedd Mathemateg a Gradd C mewn Cymraeg Ail Iaith (cwrs llawn neu fyr).

Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn angenrheidiol, yn ogystal â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd tuag at y cwrs a'r gallu i gymell eich hun. Byddwch yn cael eich asesu yn barhaol ac mae disgwyl eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae'r cwrs yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer astudiaeth bellach ar lefel gradd gan ddatblygu sgiliau sy'n addas i'r gweithle ar yr un pryd.

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd myfyrwyr sydd wedi cyflawni cymhwyster cwrs byr TGAU mewn Cymraeg yn cael eu derbyn i wneud Cymraeg A/AS ar Gampws Crosskeys yn unig.

Mae Coleg Gwent wedi ymrwymo i gynnig cwricwlwm amrywiol a chyfoethog i'w ddysgwyr Lefel A ac AS ac mae'n awyddus i sicrhau bod dysgwyr ar draws Gwent yn gallu cyrchu pynciau sy'n hanesyddol yn recriwtio niferoedd bach. Er mwyn sicrhau argaeledd, rydym yn cynnig Sbaeneg a Ffrangeg ar ein Campws Crosskeys a chynigir Cymraeg ar ein campysau Crosskeys a Parth Dysgu Blaenau Gwent. Bydd Cerddoriaeth a Mathemateg Bellach yn cael eu cynnig ar bob un o'n campysau. Os yw eich dewis o bynciau yn golygu bod angen teithio rhwng campysau, cysylltwch â'n hadran dderbyn i gael mwy o wybodaeth.

Apply online at www.colegwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

